**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

28 Mai 2025

Annwyl Jenny,

**Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Yn ystod ein cyfarfod ddydd Mercher 14 Mai, trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gwnaethom gytuno bod y cynnwys o fewn cylch gwaith eich Pwyllgor chi.

Rydym yn croesawu bwriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ymgymryd â gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a hoffem rannu ein safbwyntiau ar ôl trafod yr adroddiadau hyn, a allai fod yn berthnasol i'ch ymchwiliad.

Rydym yn falch o nodi casgliad Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y Ddeddf, dros amser, wedi dod yn fwy amlwg a bod tystiolaeth ei bod yn dylanwadu ar gynllunio tymor hwy ac yn effeithio ar brosesau penderfynu ac arferion gweithio. Fodd bynnag, mae pryderon sylweddol ynglŷn â sut y mae'r Ddeddf wedi cael ei gweithredu ar lefel ymarferol a'r ffaith nad yw'n "ysgogi'r newid system gyfan a fwriadwyd".

Yn ystod ein trafodaethau, gwnaethom nodi pryderon penodol o ran y pwyntiau a ganlyn:

- A yw'r diffygion a amlinellir yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhan gynhenid o'r ddeddfwriaeth ei hun, a oes problem gweithredu nad yw'n deillio o'r ddeddfwriaeth, neu a ydynt yn gyfuniad o'r ddau?
- Nodwn y gall problemau hefyd gael eu hachosi yn sgil pa mor glir a pha mor sicr yw'r cyllid sydd ar gael i gyrff cyhoeddus a'r fframweithiau atebolrwydd sydd ar waith.

- Mae effaith yr ansicrwydd hwn waeth gan nad oes data gwell yn cael eu casglu ar effaith penderfyniadau.
- Rydym yn pryderu am y diffyg canlyniadau cyfreithiol pan fo pobl yn methu â gweithredu'r ddeddfwriaeth, ac mae gennym gwestiynau ynghylch beth yw'r canlyniadau ymarferol, mewn gwirionedd, os gwneir penderfyniadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r Ddeddf.
- Nodwn hefyd fod deddfwriaeth ddilynol wedi ceisio ymgorffori egwyddorion y Ddeddf, ond a yw hyn wedi arwain at rywfaint o ddyblygu a chymhlethdod ychwanegol i gyrff cyhoeddus o ran ei gweithredu?
- Yn olaf, roedd y Pwyllgor yn cytuno ag Archwilydd Cyffredinol Cymru nad oedd Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio digon ar fesurau atal. Rydym yn cymeradwyo Argymhelliad 3 yn yr adroddiad a byddem yn awyddus i glywed mwy am ganfyddiadau'r Pwyllgor yn y maes hwn.

Edrychwn ymlaen at glywed y casgliadau yn sgil eich gwaith yn y maes hwn. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn agored i gydweithio yn y dyfodol yn y maes hwn os byddai’n fuddiol yn eich barn chi.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.